Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Manteision ac Anfanteision technegau rheoli

## Pryfladdwyr

**Sylwedd a ddefnyddir i reoli pryfed niweidiol.**

- Yn lladd pryfed a allai niweidio'r goeden neu'r ffrwythau
- Drwy gael gwared ar bryfed niweidiol, gall cnwd posibl ffrwythau'r goeden gynyddu

## Pryfladdwyr

**Sylwedd a ddefnyddir i reoli pryfed niweidiol.**

- Yn gallu rhedeg i gyrsiau dŵr gan ladd pysgod
- Hefyd yn gallu lladd pryfed buddiol gan gynnwys pryfed peillio

## Compost

**Deunydd organig cyfoethog sy'n cynnwys sylweddau sy'n pydru fel llysiau a ffrwythau.**

- Yn cynyddu faint o faetholion sydd yn y pridd sy'n hanfodol ar gyfer twf coed
- Yn gwella strwythur y pridd gan ei wneud yn fwy addas ar gyfer twf coed

## Compost

**Deunydd organig cyfoethog sy'n cynnwys sylweddau sy'n pydru fel llysiau a ffrwythau.**

- Mae gwneud eich compost eich hun yn broses sy'n cymryd llawer o amser
- Gall fod yn ddrud i'w brynu
- Gall hadau ei halogi gan arwain at chwyn

## Deunydd pydredig (mulch)

**Deunydd fel sglodion pren sy'n cael ei daenu dros wyneb y pridd.**

- Yn cadw lleithder yn y pridd
- Yn ychwanegu maetholion ychwanegol i'r pridd
- Yn arafu ac atal twf chwyn

## Deunydd pydredig (mulch)

**Deunydd fel sglodion pren sy'n cael ei daenu dros wyneb y pridd.**

- Gall achosi pydriad os yw'n cyffwrdd â boncyff y goeden

## Chwynladdwr

**Sylwedd a ddefnyddir i reoli planhigion digroeso.**

- Yn cynyddu cnwd ffrwythau drwy gael gwared ar blanhigion a allai gystadlu am adnoddau
- Haws na thynnu chwyn â llaw

## Chwynladdwr

**Sylwedd a ddefnyddir i reoli planhigion digroeso.**

- Gall arwain at gymhlethdodau iechyd i bobl a bywyd gwyllt os deuir i gysylltiad â'r cemegau
- Yn gallu lladd planhigion nad ydych wedi'u targedu gan leihau bioamrywiaeth

## Dŵr glaw

**Cesglir hwn i ddyfrio coed ffrwythau.**

- Yn tueddu i fod y pH cywir ar gyfer llawer o blanhigion - ychydig yn asidig
- Mae'n adnodd a geir am ddim

## Dŵr glaw

**Cesglir hwn i ddyfrio coed ffrwythau.**

- Angen ei storio'n ddiogel a gall y cynwysyddion fod yn ddrud
- Mae'r cyflenwad fel arfer yn is yn yr haf pan fo'r galw am ddyfrio coed ffrwythau ar ei uchaf

## Dŵr tap

**Defnyddir hwn i ddyfrio coed ffrwythau.**

- Nid oes angen ei storio
- Mae gan ddŵr tap mewn rhai ardaloedd fwynau ychwanegol a all fod o fudd i'ch coed

## Dŵr tap

**Defnyddir hwn i ddyfrio coed ffrwythau.**

- Yn aml mae ganddo glorin ychwanegol a all fod yn niweidiol i rai coed ffrwythau
- Mae dŵr tap ffres yn gymharol ddrud ac yn adnodd cyfyngedig, sy'n aml yn arwain at waharddiadau ar bibelli dŵr yn yr haf
- Caiff $CO_2$, sy'n nwy tŷ gwydr, ei ryddhau wrth brosesu dŵr